Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Creigiau
# Scout Hall,
# The Terrace,
# Creigiau
# Caerdydd
# CF15 9NG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Creigiau sydd wedi`i leoli yn Neuadd y Sgowtiaid, Creigiau, pentref ger Llantrisant.  Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r ardal leol ac yn bennaf o gartrefi lle mae Saesneg yw prif iaith y cartref.  Mae llawer o blant yn dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg.  Ychydig iawn sy`n dod o gartrefi sydd â`r Gymraeg fel iaith y cartref.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn hyd at 18 o blant mewn unrhyw sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 51 o blant ar y gofrestr; 11 yn dair oed, a phump ohonynt yn cael eu hariannu.  Mae'r lleoliad yn derbyn plant o ddwy oed ac mae`r plant yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn dilyn eu trydydd pen-blwydd a phan mae lle iddynt yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol.

Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos yn ystod y tymor ysgol, rhwng 9.15 y.b. a 11.45 y.b.  Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ers mis Ionawr 2015, mae'r lleoliad wedi cael ei arwain ar y cyd ac mae'r arweinwyr yn cael eu cefnogi gan gynorthwy-ydd.  Mae ganddynt gymwysterau a phrofiad addas.  Yn ystod yr arolygiad roedd dau o fyfyriwr ar leoliad hefyd.

Roedd arolygiad diwethaf AGGCC ym Medi 2014.  Nid yw'r lleoliad wedi cael ei arolygu gan Estyn o`r blaen.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae gan y lleoliad gryfderau sy`n gorbwyso meysydd i`w gwella oherwydd:

- Mae`r plant yn hapus, yn teimlo`n ddiogel ac yn setlo`n gyflym wrth gyrraedd yn y bore
- Mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda
- Mae`r plant yn derbyn gofal da ac yn cael eu cefnogi
- Mae gan lawer o blant fedrau gwrando da ac yn ymuno`n frwdfrydig gyda chaneuon actol y dosbarth
- Mae`r ymarferwyr yn annog y plant i fwyta`n iach ac i ymgymryd ag ymarfer corff

Fodd bynnag,

- Nid oes digon o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- Nid yw asesu yn cael ei ddefnyddio`n ddigon da i fwydo`r cynllunio neu i ddarparu darlun clir o gynnydd pob plentyn
- Nid yw`r profiadau dysgu`n cyfateb yn dda i oedran a gallu`r plant
- Nid yw`r plant, yn enwedig y mwyaf galluog, yn cael eu herio`n ddigonol.

### Rhagolygon gwella

Mae`r cryfderau`n gorbwyso meysydd i`w datblygu oherwydd:

- Mae`r arweinyddiaeth newydd wedi ymrwymo i ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer yr holl blant
- Mae`r arweinydd sydd wedi`i hapwyntio`n ddiweddar yn rhoi gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel i`r lleoliad ar gyfer y dyfodol
- Mae`r arweinydd sydd wedi`i hapwyntio`n ddiweddar wedi nodi meysydd i`w datblygu ac yn mynd i`r afael â nhw. Mae`n awyddus i ddatblygu darpariaeth y lleoliad a gwella deilliannau`r plant fel canlyniad
- Mae`r lleoliad wedi sefydlu perthynas dda gyda`r rhieni ac mae hyn yn cyfrannu at synnwyr o gymuned
- Mae`r lleoliad yn dechrau defnyddio hunanarfarnu fel sail i weithredu gwelliant
- Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r lleoliad

Fodd bynnag

- Mae`r cynllunio ar gyfer gwelliant mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad
- Nid yw`r hunanarfarnu`n canolbwyntio`n ddigonol ar safonau cyflawniad a lles y plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu`r plant

A2 Datblygu system asesu sy`n nodi cyflawniad a chynnydd y plant yn glir

A3 Defnyddio cofnodion asesu`r plant wrth gynllunio profiadau dysgu fel bod y tasgau`n cyfateb yn dda i oedran a gallu`r plant

A4 Sicrhau bod gan y plant, yn enwedig y mwyaf galluog, ddigon o her

A5 Rhoi gwybodaeth i rieni a fydd yn eu galluogi i helpu eu plant i wella

A6 Darparu cynllun datblygu ar gyfer y lleoliad er mwyn blaenoriaethu a monitro gwelliannau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd derbyniol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae'r plant hyn yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn cyflawni`n dda yn aml. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn dyfalbarhau. Mae gan y mwyafrif o blant fedrau gwrando da ac mae bron pob un yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon dosbarth ac yn mwynhau caneuon actol yn arbennig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dilyn cyfarwyddiadau yn briodol ac yn cofio dysgu blaenorol, fel ateb cwestiynau am stori maen nhw wedi`i chlywed o`r blaen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, ychydig iawn o blant sy`n gallu sgwrsio'n rhwydd yn yr iaith ac mae'r mwyafrif yn cael eu cyfyngu i eiriau unigol ac ymadroddion syml ac mae`r sgwrsio wrth chwarae yn ddieithriad yn Saesneg. Ar wahân i ychydig, nid yw`r plant yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac mae ganddynt eirfa gyfyngedig iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ond mae eu mwynhad yn cael ei difetha yn aml gan ychydig o blant sydd â sgiliau gwrando gwael. Ychydig iawn o blant sy`n edrych ar lyfrau yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trin offer ysgrifennu, gan gynnwys sialc, pensiliau a phinnau ffelt yn hyderus ac mae rhai yn gwneud ymdrechion rhesymol i ysgrifennu eu henwau. Mae lleiafrif yn gallu ysgrifennu rhif mewn ffurf adnabyddadwy.

Mae medrau cyfrif y plant yn datblygu'n briodol fel grŵp. Mae pob plentyn yn adrodd rhifau hyd at 10 yn hyderus ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud hynny yn Gymraeg. Yn unigol, mae`r rhan fwyaf o blant yn cyfrif i bump yn gywir, fel wrth gyfrif nifer y stepiau maen nhw wedi`u dringo. Mae'r rhai mwy galluog yn gallu cyfrif hyd at 10 ac ychydig y tu hwnt i 10. Mae llawer o blant yn dechrau adnabod rhif ac mae'r mwy galluog yn gallu cyfateb rhifau mewn ffurf ysgrifenedig. Mae lleiafrif o blant yn datblygu iaith fathemategol sylfaenol ac yn deall ystyr geiriau fel "llawn a gwag, mawr a bach". Mae llawer o blant yn cyfateb siapiau syml, fel jig-so. Mae ychydig o blant yn dechrau adnabod siapiau dau ddimensiwn, fel trionglau, sgwariau a chylchoedd ac yn gwybod eu henwau Cymraeg. Ychydig iawn o blant sy`n medru tynnu llun siap adnabyddadwy.

Mae llawer o blant yn cael profiadau perthnasol o ddefnyddio teganau digidol a chwarae gyda theganau o ffonau symudol. Ar y cyfan, tanddatblygedig yw cymhwysedd y plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae gan lawer o blant sgiliau corfforol sydd wedi`u datblygu`n dda. Maen nhw`n pedlo a symud beiciau tair olwyn yn fedrus ac yn defnyddio brwsys paent gyda rheolaeth dda. Maen nhw`n hapus i ddewis a defnyddio paent a defnyddio ystod o ddeunyddiau yn eu harddangosfeydd. Mae llawer o blant yn gwybod bod angen dŵr i dyfu hadau a phlanhigion a ble i ddod o hyd i fwystfilod bach, fel pryfed yn eu

hamgylchedd allanol.  Nid yw medrau dysgu annibynnol a datrys problemau`r plant wedi`u datblygu'n ddigonol.

**Lles:  Da**

Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig i ddod i mewn i'r lleoliad yn y bore ac i gymryd rhan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer.  Maen nhw`n ymgartrefu'n gyflym ac mae`r staff bob amser wrth law i'w cefnogi er bod llawer yn hapus i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

Mae`r plant yn gwrtais i'w gilydd a gyda oedolion.  Mae llawer yn serchog tuag at blant eraill ac yn barod i gymryd eu tro a rhannu adnoddau.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda.  Fodd bynnag, mae gan ychydig o blant sgiliau ymddygiadol gwael ac maen nhw, ar adegau, yn aflonyddgar, fel yn ystod amser byrbryd neu wrth wrando ar stori.  Mae hyn yn effeithio dysgu'r plant eraill a'r cyfraniad maen nhw`n medru ei wneud.  Mae'r berthynas yn dda rhwng oedolion a phlant a rhwng y plant eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn darparu`r plant ag ystod o weithgareddau dysgu gwerth chweil y tu mewn a thu allan.  Nid yw'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu sylfaenol y plant a sgiliau rhifedd yn cefnogi dysgu`r plant yn ddigon da.  Mae`r cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau TGCh plant yn annigonol.  Ar y cyfan, nid yw'r cynllunio`n darparu ar gyfer gweithgareddau sydd wedi`u gwahaniaethu`n ddigonol ar gyfer plant o wahanol oedran a gallu ac fel canlyniad, nid yw`n darparu her digonol.  Nid yw`r cynllunio`n nodi`n glir nac yn gyson y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac maen nhw`n sensitif i anghenion unigol y plant.  Mae'r system gweithiwr allweddol sydd ar waith yn golygu bod ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn defnyddio holi a chyngor priodol i annog medrau meddwl y plant.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd ac amserol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru pan fyddant yn dathlu dyddiau pwysig yn y calendr Cymreig, fel Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.  Mae`r plant yn dysgu am yr arteffactau sy'n gysylltiedig â dathliadau o'r fath.

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg trwy gydol y sesiynau ac mae hyn yn effeithio`n dda ar ddatblygiad iaith y plant.  Mae`r cyfleoedd i ganu caneuon Cymreig, yn enwedig caneuon actol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y plant.  Fodd bynnag, mae`r ystod o oedrannau a galluoedd gwahanol y plant, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, yn golygu bod adrodd storïau i`r grŵp cyfan yn amhriodol.  Mae lleiafrif o blant yn colli diddordeb yn fuan ac mae eu hymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar ddysgu plant eraill.

Mae`r ymarferwyr yn cynnig profiadau boddhaol i`r plant ddysgu am a deall pwysigrwydd ailgylchu a chynaliadwyedd. Mae cyfleoedd da yn cael eu darparu gan safle`r lleoliad i ddysgu am y byd o`u cwmpas. Mae`r plant yn gwybod am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a`r dathliadau.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn frwdfrydig ac yn ymroddedig i ddarparu'r cymorth gorau posibl i'r plant. Maen nhw`n sensitif i anghenion y plant ac yn eu parchu fel unigolion. Mae staff yn gwneud amser i wrando ar blant a sgwrsio gyda nhw. Mae hyn yn gwneud effaith gadarnhaol ar ddatblygu iaith Gymraeg y plant.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ddefnyddiol o ddisgwyliadau'r Cyfnod Sylfaen. Maen nhw`n defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu, fel gweithio gyda grwpiau bach a phlant unigol, ond yn caniatáu digon o amser i'r plant weithio'n annibynnol. Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion. Mae`r staff yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn dda ac mae cwestiynu`n cyfeirio`n dda at ddatblygu sgiliau meddwl y plant.

Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda ac mae`r ymarferwyr yn fodelau iaith da.

Mae`r gweithdrefnau asesu yn y broses o gael eu datblygu. Mae pob ymarferydd yn cefnogi grŵp o blant ac yn adnabod y plant yn dda. Mae cofnodion asesu yn cael eu llunio ar gyfer pob plentyn mewn ffurf ffotograffig a llyfryn sy`n rhoi cofnod diwedd blwyddyn i rieni o'r hyn y mae eu plant wedi'i gyflawni. Nid yw cofnodion o'r fath yn canolbwyntio'n ddigonol ar y sgiliau mae`r plant wedi eu caffael ac nid ydynt yn cael eu defnyddio i gynllunio'r cam nesaf yn nysgu`r plentyn. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio`n cyfateb yn dda i anghenion plant unigol ac yn aml nid ydynt yn eu herio'n ddigonol.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n briodol am gynnydd eu plentyn drwy gyswllt anffurfiol gyda staff a thrwy fynychu gweithgareddau`r lleoliad. Nid oes unrhyw gyfathrebu rheolaidd gyda rhieni i'w gwneud yn ymwybodol o gynnydd eu plentyn ac i nodi'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae`r ymarferwyr yn ofalgar ac yn cefnogi'r plant yn dda. Mae`r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion a'u trin yn gyfartal. Mae`r ymarferwyr yn annog plant i ffurfio perthynas gadarnhaol ac i ddangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd. Mae trefniadau sefydlu a pholisi drws agored y lleoliad yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac mae hyn yn helpu i sicrhau eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol.

Mae`r gweithgareddau dyddiol yn llwyddo i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae`r plant yn cael eu hannog i rannu teganau ac adnoddau eraill ac i ofalu am ei gilydd. Maen nhw`n dysgu i ofalu am bethau byw drwy dyfu hadau a gofalu amdanynt.

Mae'r lleoliad yn ardal ddiogel. Mae`r gatiau i'r lleoliad yn cael eu cadw ar glo yn ystod y sesiynau ac mae gan yr ardal tu allan ffens fawr ac yn ardal ddiogel. Pan mae`r plant tu fewn, mae`r drws ar glo bob amser fel na all neb ddod i mewn neu adael yn ddirybudd. Mae`r plant yn cael eu goruchwylio bob amser. Mae'r holl ymarferwyr yn deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu ac mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio`n ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oedd unrhyw blant o'r fath yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, deniadol ac ysgogol ar gyfer y plant, lle mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i'r holl weithgareddau. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas ac yn ystod yr arolygiad roeddent yn cael eu cefnogi gan ddau o fyfyriwr ar leoliad. Mae`r adnoddau o ansawdd da ac yn hygyrch i`r plant. Mae ethos cadarnhaol a gofalgar y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel ac mae'r berthynas dda rhwng oedolion a phlant yn sicrhau bod pob plentyn yn gwybod ble i gael help os oes angen.

Mae'r adeiladau mewnol yn helaeth ac mewn cyflwr da. Mae defnydd da yn cael ei wneud o'r lle sydd ar gael ac mae arddangosfeydd o waith y plant yn gwella'r amgylchedd dysgu. Mae`r cyfleusterau i annog y plant i ysgrifennu ac i ddatblygu eu sgiliau rhifedd heb ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r amgylchedd tu allan yn ddiogel ac yn caniatáu i ystod eang o brofiadau dysgu ddigwydd. Mae'r tu allan yn cael effaith sylweddol ar ddysgu`r plant. Mae`r plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r ardal leol, fel y swyddfa bost a`r siop leol ac mae ymwelwyr â'r lleoliad yn cynnwys yr heddlu lleol. Mae hyn yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r gymuned leol yn briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae`r lleoliad yn cael ei arwain ar y cyd ac mae rhannu`r cyfrifoldebau o arwain yn ddatblygiad diweddar iawn. Mae'r ddau arweinydd wedi ymrwymo'n gadarn i ddarparu darpariaeth o ansawdd da ac mae`r arweinydd sydd wedi`i phenodi`n ddiweddar wedi dod â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a disgwyliadau uchel i`r lleoliad. Mae hi'n dangos synnwyr cryf o bwrpas sy`n canolbwyntio ar wella`r deilliannau dysgu a lles ar gyfer yr holl blant. Mae arwyddion bod gwelliannau'n digwydd, fel gweithgareddau grŵp bach sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd y plant mwyaf galluog. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw`n bosib gwerthuso gwelliannau o'r fath yn wrthrychol gan nad yw`r gwelliannau o'r fath wedi cael digon o amser i ddod yn rhan annatod o rediad y lleoliad o ddydd i ddydd.

Mae'r lleoliad yn anelu at sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal da ac yn cael eu trin gydag anwyldeb a pharch. Mae'r nodau hyn yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn hawdd mynd at ymarferwyr a bod eu plant yn hapus ac yn awyddus i fod yn bresennol. Mae'r berthynas rhwng rhieni a staff yn gadarnhaol ac mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n galed ac yn gweithio'n dda fel tîm. Yn ystod yr arolygiad roeddent yn cael cefnogaeth dda gan ddau o fyfyriwr ar leoliad. Mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar ddarparu darpariaeth dda ar gyfer y plant. Mae`r arweinwyr yn dechrau cynnwys yr holl staff yn y broses o gynllunio ac mae barn plant yn cael ystyriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu wedi'u gwahaniaethu'n ddigonol i gwrdd ag anghenion plant o wahanol oedrannau a gallu. Drwyddi draw, nid oes gan y cwricwlwm gydbwysedd ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r lleoliad ac yn cael ei hysbysu`n dda. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi`r gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae cysylltiadau da wedi'u sefydlu gyda rhieni a gofalwyr.

Mae`r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso staff yn cwrdd â gofynion ac mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth sy`n datblygu o'u cyfrifoldebau.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae diwylliant o hunan arfarnu yn datblygu'n dda o fewn y lleoliad sydd wedi ei ddechrau gan yr arweinydd a benodwyd yn ddiweddar. Ers ei phenodiad mae hi wedi gweithio`n effeithlon wrth arfarnu'r ddarpariaeth ac ers cyrraedd dealltwriaeth o gyflawniadau a lles y plant. Yn araf, mae llun yn dod i'r amlwg ac mae'r adroddiad hunanarfarnu a gynhyrchwyd yn ddiweddar yn ddogfen ddefnyddiol sy'n nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hi wedi ymgynghori`n helaeth gan gynnwys staff, rhieni a phlant ac mae hi`n datblygu darlun clir o'r lleoliad.

Mae`r meysydd i`w datblygu sydd wedi`u nodi yn helaeth, ond nid ydynt yn cael eu blaenoriaethu ac nid oes amserlen boddhaol ar gyfer eu cwblhau. Mae`r cynllunio ar gyfer gwella sydd wedi`i selio ar ganfyddiadau hunanasesu heb ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r arweinydd sydd wedi cymryd y cyfrifoldeb o fynd i'r afael â'r diffygion yn y lleoliad yn ymroddedig ac wedi gweithio'n galed iawn dros y ddau fis diwethaf. Mae hi'n frwdfrydig ac mae ei hymdrechion wedi'u ffocysu'n dda ar wella safonau cyflawniad y plant. Fodd bynnag, mae llawer ar ôl i'w wneud.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn gwneud cyfraniad gwerthfawr a gwerth chweil i ddatblygu cyflawniad a lles plant. Mae pob rhiant yn derbyn pecyn croeso defnyddiol sy`n rhoi gwybodaeth hanfodol iddynt am y lleoliad a`i brif nodau ac amcanion. Mae`r rhieni yn cael eu gwahodd i brynhawn agored i gyfarfod a thrafod materion sydd o bryder iddyn nhw a`r staff ac yn cwrdd â'r gweithiwr allweddol a fydd yn bennaf gyfrifol am eu plentyn. Mae'r lleoliad hefyd yn gwahodd rhieni i aros a setlo eu plentyn pan fydd eu plentyn yn mynychu'r lleoliad am y tro cyntaf. Mae`r ymarferwyr ar gael bob amser i gyfarch y plant a siarad gyda rhieni / gofalwyr pan mae`r plant yn cyrraedd yn y bore. Mae`r staff wrth law i siarad â rhieni / gofalwyr pan fyddan nhw`n casglu eu plant ac i'w cadw`n hysbys ynglŷn â gweithgareddau'r bore. Mae`r rhieni hefyd yn weithgar iawn mewn gweithgareddau codi arian ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol i sicrhau cyflenwad da o adnoddau.

Mae trefniadau da yn eu lle ar gyfer trosglwyddo plant i'r ysgol gynradd Gymraeg leol. Mae`r plant yn gyfarwydd â'r athrawes feithrin ac mae hi'n derbyn gwybodaeth am y plant cyn iddynt ddechrau ar y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r lleoliad, fel rhan o'i swyddogaeth "cofleidiol" hefyd yn casglu ac yn goruchwylio plant sy'n mynychu'r ysgol ar sail ran amser ac wedi bod yn y lleoliad yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu bod y plant iau yn adnabod y plant hynny yn yr ysgol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o adnoddau o fewn y gymuned i wella ei ddarpariaeth. Mae ymweliadau â'r swyddfa bost a siopau lleol yn cynyddu ymwybyddiaeth y plant o'r ardal leol. Mae ymwelwyr fel yr heddlu lleol, yn helpu`r plant i sylweddoli pa bobl sy'n edrych ar eu hôl yn y gymuned. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio'r amgylchedd lleol uniongyrchol yn dda. Mae`r lleoliad wedi ei wahaniaethu'n dda i mewn i ardaloedd chwarae, meysydd ar gyfer ymchwiliadau a man eistedd ar gyfer amser stori – mae pob agwedd yn gwneud cyfraniad defnyddiol at ddysgu`r plant.

Pan fo angen, mae gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio, fel therapyddion lleferydd i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r staff wedi mynychu rhai cyrsiau hyfforddiant proffesiynol perthnasol gan gynnwys cyrsiau ar ddiogelu plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Bu newidiadau sylweddol yn y lleoliad dros y misoedd diwethaf drwy benodi tîm arweinyddiaeth newydd. Fodd bynnag, nid yw`r tîm arweinyddiaeth newydd wedi cael cefnogaeth dda gan yr awdurdod lleol. Fel canlyniad, nid yw cynllunio'r cwricwlwm yn cefnogi dysgu`r plant yn ddigon da, nid yw`r asesu yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth gynllunio`r camau nesaf ar gyfer y plant, ac mae`r cynlluniuo ar gyfer gwellainnau yn y dyfodol heb ddatblygu digon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae`r lleoliad yn gwneud defnydd digonol o staffio ac adnoddau i gefnogi cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas ac wedi mynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol sy`n berthnasol i`w hanghenion.

Mae cynlluniau ar gyfer gwerthuso staff ond nid yw wedi cymryd lle hyd yn hyn ac nid yw`r anghenion hyfforddi wedi`u nodi.

Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad adnoddau addas.  Mae`r ddarpariaeth tu allan yn enwedig o dda ac yn cael ei defnyddio`n dda.  Tu fewn, mae rhai ardaloedd, fel y cyfleusterau chwarae rôl, yn ddiddorol ac yn ysgogol ar gyfer y plant.  Fodd bynnag, mae rhai agweddau pwysig o`r Cyfnod Sylfaen heb ddatblygu digon, er enghraifft, nid yw`r cyfleusterau ar gyfer creu marciau ac ysgrifennu yn amlwg ac nid oes unrhyw le amlwg yn bodoli i`r plant ddysgu medrau cyfrifiadurol.

Mae materion ariannol yn cael eu rheoli`n dda ac mae`r blaenoriaethau gwario yn cael eu harfarnu`n ofalus.  Mae`r cyllid yn cael ei adolygu`n reolaidd ac mae ychydig o arian dros ben yn cael ei gadw.

Wrth ystyried y gwendid sydd wedi`i nodi yn safonau cyflawniad a phrofiadau dysgu`r plant, mae`r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |